LC157

# Cynulliad Cenedlaethol Cymru
# The National Assembly for Wales

**ADRODDIAD GAN Y PWYLLGOR DEDDFAU** **LEGISLATION COMMITTEE REPORT**

**Rheoliadau Diwygio'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Proffesiynau sy'n Atodol i Feddygaeth) (Cymru) 2001**

**Y cefndir**

Mae Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Proffesiynau sy'n Atodol i Feddygaeth) 1974 yn gwahardd cyflogi yn yr NHS bersonau sy'n perthyn i broffesiynau penodol sydd wedi'u rhestru oni bai bod y personau hynny wedi'u cofrestru gan y bwrdd priodol a sefydlwyd ar gyfer y proffesiwn hwnnw o dan Ddeddf Proffesiynau sy'n Atodol i Feddygaeth 1960.

Mae'r Rheoliadau presennol yn diwygio Rheoliadau 1974 drwy fewnosod darpariaeth nad oes unrhyw berson i gael ei gyflogi yn swydd prosthetegydd ac orthotegydd neu therapydd celfyddydau oni bai eu bod wedi'u cofrestru, neu eu bod yn cael eu cyflogi felly yn union cyn y dyddiad dod-i-rym.

Mae Rheoliadau i'r un perwyl eisoes wedi'u gwneud yn Lloegr –
OS 2000/523 a wnaed ar 29 Mawrth 2000, gan ddod i rym ar 1 Ebrill 2000. Nid yw'r Cyd-bwyllgor ar Offerynnau Statudol wedi cyflwyno adroddiad ar unrhyw bwyntiau ar reoliadau Lloegr (Sesiwn 1999 – 2000 13eg Adroddiad).

**Rheol Sefydlog 11.5**

Nid oes dim pwyntiau wedi'u nodi fel materion y mae angen i'r Pwyllgor wahodd y Cynulliad i roi sylw arbennig iddynt o dan Reol Sefydlog 11.5.

**Sylwadau Cyffredinol**

Gan eu bod wedi cael cyfle i edrych ar ddrafft cynnar o'r Rheoliadau hyn, mae cynghorwyr cyfreithiol y Pwyllgor wedi llwyddo i godi nifer o bwyntiau sydd wedi'u cymryd i ystyriaeth yn y drafft terfynol.

Er hynny, nodwyd bod angen cywiro'r pwyntiau teipograffyddol canlynol yn y drafft terfynol.

- Yn ail baragraff y Nodyn ESboniadol mae "ddibenion" wedi'i gamsillafu.
- Yn ail baragraff y Nodyn Esboniadol ceir atalnod llawn amhriodol ar ôl "Service".
- Yn Rheoliad 1(1) ni ddylai "1 Ebrill 2001" fod mewn print tywyll.

**Mick Bates AM**
**Cadeirydd y Pwyllgor Deddfau**

6 Chwefror 2001